

Archwilio Pam

Fêl



**Adnoddau Gweithgaredd
ar gyfer dysgwyr ac athrawon**

Archwilio Pam

Fêl

**Adnoddau Gweithgaredd
ar gyfer dysgwyr ac athrawon**

Tania ap Siôn, Leslie J Francis a Libby Jones

Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Cyhoeddwyd 2016 gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair,
Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Cymru.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan
Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y
Gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei
atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn
unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig,
mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands
Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Noddwyd gan Lywodraeth Cymru.

YNGHYLCH Y GYFRES ARCHWILIO PAM

Am beth mae'r gyfres?

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn archwilio'r mannau lle maen nhw'n byw a'r mannau y maen nhw'n mynd i ymweld â nhw. Maen nhw'n mwynhau chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i' er mwyn eu helpu i ddod i adnabod y mannau hyn yn well. Yn y gyfres *Archwilio Pam*, mae Aled a Siân yn chwilfrydig ac eisiau gwybod pam fod rhai o'r pethau o'u cwmpas yn bwysig i'w ffrindiau Cristnogol, Iddewig a Mwslimaidd. Gyda'i gilydd maen nhw'n archwilio bara, goleuni, fêl, croes, menora a dŵr, ac yna maen nhw'n cymryd rhan mewn Gŵyl Ffydd lle maen nhw'n cofio am bob un o'r symbolau ffydd hyn ac yn eu dathlu.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, a'r lle gaiff ei ddarparu mewn addysg i holi, i archwilio ac i lunio dealltwriaeth gynyddol pobl ifanc o'u perthynas â hwy eu hunain, gydag eraill, ac â byd natur. Mae'r gyfres wedi cael ei llunio ar ymchwil helaeth y maes crefyddau, pobl ifanc ac addysg, yn ogystal ag ar ymwneud ag arfer addysgol ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r sylfeini hyn yn gosod y gyfres mewn sefyllfa unigryw ymhlith y nifer fawr o adnoddau addysgol sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r adnoddau yn y gyfres yn fwriadol yn hyblyg a heb fod yn rhagnodol. Mae hyn yn cydnabod natur y dysgu y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth heddiw ar gyfer plant dan 7 oed, a hefyd bwysigrwydd ysgogi a chefnogi creadigrwydd ac unigolrwydd athrawon wrth iddyn nhw lunio eu mannau dysgu.

Mae'r gyfres wedi cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru ac wedi ei dyfeisio i gefnogi addysg grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen gyda golwg ar ddysgu gweithredol trwy ddull chwarae. Mae'n tynnu'n benodol ar *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*, y *Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, a'r *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yng Nghymru*, ac mae'n ymwneud â'r rhain. Er bod yr adnoddau gweithgaredd wedi eu lleoli yn y cyd-destun penodol hwn, mae'n hawdd perthnasu'r gwaith ymchwil, a'r dulliau pedagogaidd sy'n sail iddyn nhw, i gyd-destunau eraill ac i'r cwricwla ysgol sy'n newid.

Ar gyfer pwy mae'r gyfres?

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau yn y gyfres wedi'u hanelu at blant 5 - 7 oed, ond mae'r amrywiaeth o fformatau llyfr stori a'r gweithgareddau'n gwneud y gyfres yn berthnasol ar gyfer dysgwyr iau a hŷn yn ogystal.

Mae'r gyfres wedi ei chynllunio yn bennaf ar gyfer athrawon a dysgwyr mewn ysgolion; fodd bynnag, gall rhai o fewn cyd-destunau dysgu ffurfiol ac anffurfiol eraill, gan gynnwys y cartref, hefyd ganfod y gyfres yn ddiddorol ac yn berthnasol.

Pa adnoddau sydd ar gael?

Mae saith o lyfrau stori yn y gyfres *Archwilio Pam*, sy'n ymchwilio i rai o'r pethau pwysig y mae Aled a Siân yn dod o hyd iddyn nhw wrth archwilio'r byd o'u cwmpas. Mae'r pethau pwysig hyn yn cael eu harchwilio'n gyntaf yn yr

amgylchedd seciwlar lleol cyn cael eu harchwilio drwy lygaid pobl ifanc o fewn traddodiad crefyddol penodol. Y saith llyfr stori a'r traddodiadau crefyddol yw:

- Croes (Cristnogol)
- Bara (Cristnogol)
- Fêl (Mwslimaidd)
- Dŵr (Mwslimaidd)
- Menora (Iddewig)
- Goleuni (Iddewig)
- Symbolau Ffydd (yn dod â'r tri thraddodiad crefyddol ynghyd mewn dathliad o gredoau)

Mae pob un o'r llyfrau stori i'w cael mewn pedwar fformat gwahanol, y mae'n bosib eu defnyddio mewn ffordd hyblyg, yn unol â chyd-destunau unigol. Mae pedwar fformat i'r llyfrau stori:

- fersiwn testun byr (testun byr, syml gyda lluniau)
- fersiwn testun hir (testun hirach, mwy cymhleth gyda lluniau)
- fersiwn cwestiynau allweddol (cwestiynau allweddol a lluniau)
- fersiwn lluniau (lluniau'n unig heb destun)

Mae pob un o'r fformatau ar gael i'w llwytho i lawr ar ffurf .pdf, y gellir eu defnyddio ar fyrdau gwyn ac ar amrywiaeth o ddyfeisiau electronig sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd mewn ysgolion, a chan bobl ifanc a'u teuluoedd heddiw.

Mae'r fersiwn testun byr o bob teitl ar gael fel llyfr clawr papur B5 ar gyfer llyfrgelloedd ysgol a dosbarth, yn ogystal ag ar gyfer eu defnyddio yn y dosbarth.

I ategu'r llyfrau stori, mae gan bob un o'r llyfrau stori ei becyn ei hun o *Adnoddau Gweithgaredd* ar gyfer dysgwyr ac athrawon mewn fformat .pdf y gellir ei lwytho i lawr. Mae'r Adnoddau Gweithgaredd hyn yn dilyn yr un strwythur â'r llyfrau stori. Felly, ar gyfer pob tudalen ddwbl o'r llyfr stori, mae:

- tudalen o syniadau ar gyfer gweithgareddau i bob un o'r saith maes dysgu o fewn y Cyfnod Sylfaen;
- taflen neu daflenni gweithgaredd ar gyfer dysgwyr i ategu un o'r syniadau gweithgaredd hyn;
- cysylltiadau â 'mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol'.

Yn gyfan gwbl, ar gyfer pob teitl llyfr stori mae yma 140 o syniadau am weithgareddau a 10 o daflenni gweithgaredd ar gyfer dysgwyr.

Mynediad at adnoddau'r gyfres Archwilio Pam

Mae'r holl adnoddau hyn yn rhai y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar hwb.wales.gov.uk/Adnoddau a st-marys-centre.org.uk

Mae'r fersiwn testun byr o bob teitl llyfr stori ar gael hefyd i'w brynu fel llyfr clawr papur B5 ar gyfer llyfrgelloedd ysgol a dosbarth, yn ogystal ag ar gyfer ei ddefnyddio yn y dosbarth.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen y storïau ac yn mwynhau archwilio'r adnoddau'n greadigol yn eich cyd-destunau dysgu eich hunain.

Dr Tania ap Siôn

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick

Yr Athro Leslie J Francis

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick

Libby Jones

Canolfan San Silyn, Wrecsam

Phillip Vernon

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Gorffennaf 2016



Tudalen 4



Tudalen 5

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Siaradwch ynghylch pa sgiliau arbennig fyddai eu hangen arnoch chi i fod yn jyglwr da, a thrafodwch beth allai ddigwydd pe byddai rhywun yn gwrthdynnu sylw'r jyglwr
- Holwch ynghylch pam mae rhai merched Mwslimaidd yn gwisgo fêl pan fyddan nhw'n mynd i'r farchnad

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am beth sy'n digwydd yn y llun ac ysgrifennwch beth ydych chi'n ei feddwl y mae'r bobl yn ei ddweud neu'n ei feddwl (**Gweithgaredd 1**)
- Lluniwch gân neu rigwm am y jyglwr

Datblygiad iaith Gymraeg

- fêl
- jyglwr

Datblygiad corfforol

- Ceisiwch jyglu â dwy bêl
- Smaliwch ganu'r ffidil â bwa

Datblygiad creadigol

- Gan ddefnyddio sialc o wahanol liwiau, crëwch rai 'lluniau palmant' ar iard eich ysgol
- Gwnewch drwynau clown

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol


- Dysgwch am bobl sy'n darparu adloniant stryd
- Chwiliwch am wybodaeth am farchnadoedd mewn gwahanol wledydd

Datblygiad mathemategol

- Faint o bobl ydych chi'n gallu eu gweld yn y llun?
- Pe byddai pawb sydd yn y llun yn rhoi 10 ceiniog i'r arlunydd stryd, faint o arian fyddai ganddo?


Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Gadewch i ni ddychmygu

Beth ydych chi'n ei feddwl y mae'r bobl yn y llun yn ei ddweud neu'n ei feddwl efallai?





Tudalen 6



Tudalen 7

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Meddyliwch pam mae rhai pobl yn mynd i loncian, a holwch ynghylch pwy yn eich dosbarth sy'n hoffi mynd i loncian
- Dysgwch am wahanol fathau o feliau a pham maen nhw'n bwysig i'r rhai sy'n eu gwisgo

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am eich hoff weithgaredd awyr agored
- Lluniwch restr o'r holl wahanol weithgareddau awyr agored y mae plant y dosbarth yn mwynhau eu gwneud

Datblygiad iaith Gymraeg

- loncian
- pont

Datblygiad corfforol

- Ewch i loncian
- Chwaraewch gêm â phêl

Datblygiad creadigol

- Dyluniwch eich helmed beic chi eich hunan (**Gweithgaredd 2**)
- Tynnwch lun beic gan labelu'r gwahanol rannau (e.e. cyrn llywio, sedd, cadwyn)

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch am fanteision cadw'n heini
- Dysgwch am warchodaeth hwyaid ac adar dŵr

Datblygiad mathemategol

- Defnyddiwch stopwatsh i amseru eich hun yn loncian o gwmpas cae'r ysgol
- Holwch ynghylch faint o blant eich dosbarth sy'n mynd i loncian a meddyliwch sut byddech chi'n gallu cyflwyno'r wybodaeth hon


Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Fy helmed beic

Dyluniwch eich helmed beic chi eich hunan.
Pam rydych chi wedi dewis eich dyluniad?





Tudalen 8



Tudalen 9

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Archwiliwch yr holl wahanol ffyrdd y gall pobl deithio heddiw
- Holwch ynghylch ble mae eich arhosfa fws agosaf a'r gwahanol leoedd y gall y bws fynd â chi iddyn nhw

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Dychmygwch eich bod ar fws, yn gwisgo fêl, a siaradwch am yr hyn rydych chi'n ei weld drwy ffenestr y bws
- Chwaraewch rôl mynd ar fws a thalu am docyn (fe allech chi gymryd eich tro i fod yn yrrwr y bws)

Datblygiad iaith Gymraeg

- bws
- wyth

Datblygiad corfforol

- Smaliwch yrru bws
- Meimiwch sefyll mewn ciw yn aros i'r bws gyrraedd

Datblygiad creadigol

- Gwnewch fodelau o fysiau ar gyfer yr orsaf fysiau
- Gwnewch gollage o bobl yn aros am y bws, gan gynnwys y fêl

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch am fywyd gyrrwr bws
- Trafodwch y gwahaniaeth rhwng trafndiaeth yng nghefn gwlad a thrafnidiaeth mewn tref

Datblygiad mathemategol

- Cyfrifwch sawl bws ydych chi'n gallu eu gweld mewn deg munud
- Amcangyfrifwch faint o bobl fyddai'n gallu eistedd mewn bws deulawr
(Gweithgaredd 3)

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol



Ymatebion
personol




Cwestiynau



Faint o bobl?

Amcangyfrifwch faint o bobl sy'n gallu eistedd mewn bws deulawr.

Os mai dim ond un llawr sydd i'r bws, sut byddai'r nifer yn newid?





Tudalen 10



Tudalen 11

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Archwiliwch y gwahaniaethau rhwng ffrwythau a llysiau
- Ceisiwch ddarganfod o ble mae gwahanol fathau o ffrwythau a llysiau'n dod

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Ysgrifennwch rysâit ar gyfer salad ffrwythau
- Disgrifiwch sut mae'r gwahanol lysiau'n edrych a sut deimlad sydd iddyn nhw (**Gweithgaredd 4**)

Datblygiad iaith Gymraeg

- tatws
- afalau

Datblygiad corfforol

- Gwnewch siâp ffrwyth neu lysieuyn â'ch corff a chymerwch eich tro i ddyfalu beth yw'r siâp
- Gosodwch stondin marchnad ar gyfer ffrwythau, llysiau a chigoedd

Datblygiad creadigol

- Gwnewch gollage o wahanol lysiau
- Gwnewch salad ffrwythau

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol


- Dysgwch am werth maethol ffrwythau a llysiau
- Dysgwch am fananas Masnach deg

Datblygiad mathemategol

- Cyfrifwch faint o ffrwythau a llysiau sydd yn y llun
- Pwyswch datws o wahanol feintiau a'u trefnu yn ôl eu maint

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol






Siarad am lysiau a ffrwythau


Disgrifiwch sut mae'r gwahanol ffrwythau a llysiau'n edrych a sut deimlad sydd iddyn nhw.

Pa rai ydych chi'n eu hoffi orau?




Mae'r daten yn edrych yn...

Mae'r daten yn teimlo'n...




Mae'r afal yn edrych yn...

Mae'r afal yn teimlo'n...




Mae'r fefusen yn edrych yn...

Mae'r fefusen yn teimlo'n...




Mae'r flodfresychen yn edrych yn...

Mae'r flodfresychen yn teimlo'n...



The ciwcymbr yn edrych yn...

Mae'r ciwcymbr yn teimlo'n...



Mae'r oren yn edrych yn...

Mae'r oren yn edrych yn...



Tudalen 12



Tudalen 13

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch ble mae eich mosg agosaf
- Siaradwch am wahanol enwau ac o ble maen nhw'n dod

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Ewch ati i ymarfer dweud a sillafu'r enwau 'Ahmed' a 'Salma' ac enwau rhai o'ch ffrindiau
- Dysgwch rai enwau Mwslimaidd eraill

Datblygiad iaith Gymraeg

- tŷ
- mam

Datblygiad corfforol

- Ceisiwch wisgo fêl
- Safwch o flaen drych a chydlynwch symudiadau dwylo

Datblygiad creadigol

- Edrychwch ar eich adlewyrchiad yn y drych a thynnwch lun ohonoch chi eich hun
- Ysgrifennwch eich enw'n daclus ar ddarn o gerdyn a'i addurno'n hardd ar gyfer arddangosfa dosbarth

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch am fosciau
- Dysgwch am ddilladau y mae plant Mwslimaidd yn eu gwisgo
(**Gweithgaredd 5**)

Datblygiad mathemategol

- Faint o bobl ydych chi'n gallu eu gweld yn y cyntedd?
- Pa mor fawr yw eich drych, mesurwch mewn centimedrau?

**Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol**






Beth ydw i'n ei wisgo?

Ydych chi'n gallu cysylltu'r geiriau i wahanol rannau o ddillad y Mwslimiaid hyn?

Tynnwch lun ohonoch eich hun a siaradwch am eich dillad.



kameez

fêl

abaia
gweddïo

kurta

cap corun



Tudalen 14



Tudalen 15

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Meddylwch beth fyddai'n gallu digwydd pe byddai adeiladau heb arwyddion arnyn nhw
- Holwch ynghylch pa reolau mae'n rhaid i bobl eu dilyn wrth ymweld â mosg

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am beth sy'n digwydd yn y mosg
- Ysgrifennwch weddi

Datblygiad iaith Gymraeg

- mosg
- drws

Datblygiad corfforol

Ewch ati i ymarfer tynnu eich esgidiau a'u gwisgo eto eich hunan

Gafaelwch yn nwylo eich gilydd i ffurfio bwâu Islamaidd o gwmpas y mosg

Datblygiad creadigol

- Cwblhewch y bwâu ar y llun o'r mosg a lliwiwch y llun (**Gweithgaredd 6**)
- Dyluniwch arwydd sy'n gofyn i bobl dynnu eu hesgidiau cyn mynd i mewn i'r mosg

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch ble mae mosgiau yng Nghymru a Lloegr
- Pam mae rheolau'n bwysig?

Datblygiad mathemategol

- Mesurwch y bwâu sydd yn eich llun
- Gan ddefnyddio gwybodaeth o'r Cyfrifiad, chwiliwch faint o Fwslimiaid sy'n byw yng Nghymru


Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Mosg

Cwblhewch y bwâu ar y llun o'r mosg a lliwiwch y llun.
Sut mae adeilad y mosg yn wahanol i adeilad eich ysgol chi?





Tudalen 16



Tudalen 17

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch pam mae Mwslimiaid yn tynnu eu hesgidiau cyn mynd i mewn i'r mosg i weddïo
- Dywedwch wrth eich gilydd pryd a ble rydych chi'n tynnu eich esgidiau ac eglurwch pam rydych chi'n gwneud hynny

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Gwrandewch ar stori'n cael ei darllen yn uchel
- Siaradwch ynghylch pam mae Mwslimiaid yn ymolchi cyn iddyn nhw weddïo

Datblygiad iaith Gymraeg

- ymolchi
- esgidiau

Datblygiad corfforol

- Ewch ati i ymarfer eistedd ar y llawr gyda'ch coesau wedi eu croesi
- Cerddwch yn droednoeth yn ofalus

Datblygiad creadigol

- Gwnewch arddangosfa o esgidiau ar resel neu silff
- Copïwch y patrwm sydd ar y teils ar y wal yn y mosg (**Gweithgaredd 7**)

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch am y Qur'an, a siaradwch ynghylch pam y mae'n bwysig i Fwslimiaid
- Pam mae Mwslimiaid yn darllen y Qur'an mewn Arabeg hyd yn oed os nad Arabeg yw eu hiaith gyntaf?

Datblygiad mathemategol

- Holwch ynghylch beth yw maint esgidiau plant y dosbarth a meddyliwch sut byddech chi'n gallu cyflwyno'r wybodaeth hon
- Pa mor drwm yw pâr o esgidiau?



Mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol





Dilynwch y patrwm

Copiwch yn ofalus y patrwm sydd ar y teils ar y wal yn y mosg.
Beth ydych chi'n sylwi arno ynglŷn â'r patrwm?





Tudalen 18



Tudalen 19

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch pam mae'r Qur'an bob amser yn cael ei osod yn uwch na llyfrau eraill
- Archwiliwch beth arall mae Mwslimiaid yn ei wneud i drin y Qur'an â pharch

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am sut mae pobl yn dangos parch tuag at lyfrau ac ysgrifennwch set o gyfarwyddiadau i ddysgu pobl beth mae angen iddyn nhw ei wneud (**Gweithgaredd 8**)
- Trafodwch sut mae pobl yn gwisgo'n weddus

Datblygiad iaith Gymraeg

- llyfrau sanctaidd
- dillad

Datblygiad corfforol

- Ewch ati i ymarfer ymestyn i fyny at y silff uchaf i chwilio am y Qur'an
- Dychmygwch eich bod yn dal y Qur'an a chariwch y llyfr gyda pharch

Datblygiad creadigol

- Copïwch rai llythrennau/ geiriau Arabeg a gwnewch furlun ar gyfer eich dosbarth
- Gwnewch orchudd addurnedig ar gyfer y Qur'an o ddefnydd gan ddefnyddio dyluniadau pwyth croes

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch am wledydd Arabaidd
- Dysgwch am ddiwylliant Arabaidd

Datblygiad mathemategol

- Sawl surah (pennod) sydd yn y Qur'an?
- Amcangyfrifwch mewn centimedrau pa mor uchel yw'r silff uchaf yn y dosbarth

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Sut i ddangos parch tuag at eich llyfrau

Yn gyntaf...


Nesaf...

Bob amser...


Byth...

Peidiwch ag anghofio...

Yn olaf...



Tudalen 20



Tudalen 21

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch pam mae dynion a merched yn gweddïo mewn mannau ar wahân yn y mosg
- Archwiliwch pam mae dynion a merched Mwslimaidd yn gorchuddio'u pen wrth weddïo

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am y gwahanol ystumiau defodol sy'n cael eu mabwysiadu ar gyfer gweddïo, a pham y byddai pob un wedi cael eu dewis
- Disgrifiwch yn eich geiriau eich hun y gwahanol ystumiau gweddïo

Datblygiad iaith Gymraeg

- gweddïo
- pen

Datblygiad corfforol

- Actiwch bob ystum Mwslimaidd ar gyfer gweddïo yn y drefn gywir (**Gweithgaredd 9**)
- Ewch ati i ymarfer eistedd yn dawel gan grymu eich pen a'ch llygaid wedi cau

Datblygiad creadigol

- Dyluniwch fat gweddïo Mwslimaidd
- Dyluniwch a gwnewch benwisg ar gyfer dyn sy'n Fwslim neu ferch sy'n Fwslim

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Holwch ynghylch sawl gwaith y dydd mae Mwslimiaid yn cael eu galw i weddïo
- Meddyliwch am sut mae'r alwad i weddïo'n dylanwadu ar fywyd bob dydd Mwslimaidd

Datblygiad mathemategol

- Faint o bobl sy'n gweddïo yn y llun?
- Gweithiwch allan sawl gwaith mae Mwslimiaid yn gweddïo mewn wythnos?







Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Gweddi Fwslimaidd

Actiwch bob ystum gweddio Mwslimaidd yn y drefn gywir.
Sut mae'r ystumiau gweddio'n gwneud i chi deimlo?





Tudalen 22



Tudalen 23

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Chwiliwch am enghreifftiau o wahanol ffyrdd y mae merched Mwslimaidd yn gwisgo mewn gwahanol rannau o'r byd
- Meddyliwch am sut mae gwisgo gwahanol ddilladau ac iwniform yn gallu gwneud i ni deimlo (**Gweithgaredd 10**)

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Ysgrifennwch gerdd am wahanol ddilladau ar gyfer gwahanol dymhorau'r flwyddyn
- Siaradwch am wahanol fathau o iwniform a pham mae eu hangen

Datblygiad iaith Gymraeg

- nyrs
- plismon

Datblygiad corfforol

- Ewch ati i ymarfer gwisgo gwahanol fathau o iwniform o'r 'bocs gwisgo'
- Meimiwch wahanol swyddi sy'n gysylltiedig â ffyrdd nodedig o wisgo

Datblygiad creadigol

- Chwiliwch am wahanol fathau o wisgoedd a rhai nodedig, a gwnewch gollage
- Dyluniwch a gwnewch fêl

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Archwiliwch wahanol fathau o wisgoedd sy'n ymwneud â gwahanol ddiwylliannau
- Meddyliwch ynghylch pam mae pobl yn gwisgo mewn ffyrdd gwahanol

Datblygiad mathemategol

- Faint o wahanol fathau o esgidiau ydych chi'n gallu eu gweld gan y plant yn eich dosbarth (e.e. rhai yn cau â chareiau, yn slipio ar y droed, gyda strap *velcro*, strap T a bwcl) a pha fath yw'r mwyaf poblogaidd?
- Lluniwch restr o'r holl swyddi y gallwch chi feddwl amdany'n nhw sy'n gofyn am wisgo iwniform, a'u cyfrif


Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Archwilio gwahanol ddilladau

Meddyliwch am sut mae gwisgo gwahanol ddilladau ac iwnifform yn gallu gwneud i ni deimlo. Defnyddiwch rai o'r geiriau hyn i'ch helpu chi.



diogel

balch

parod

smart

pwysig




cynnes

hapus

arbennig

llawn cyffro

nerfus



cydradd

dewr

chwaraegar

blinedig

difrifol



Y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol yng Nghymru

Ystod: Pobl, Credoau a Chwestiynau (5-7)

Dylai plant gael cyfleoedd (trwy storiâu, gweithgareddau a phrofiadau) i:

- gael **mewnwelediad** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd;
- archwilio sut y mae crefydd wedi **dylanwadu ar fywyd pobl a rhoi arweiniad** iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach;
- gofyn **cwestiynau** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio;
- ymchwilio a mynegi **ystyr** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth;
- mynegi **ymatebion personol** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol;
- archwilio ein **cyfrifoldeb** ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol.



Tudalennau 4-5

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Cael mewnwelediad i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. Archwilio arwyddocâd cyhoeddus y fêl i ferched Mwslimaidd. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Holwch ynghylch pam mae rhai merched Mwslimaidd yn gwisgo fêl pan fyddan nhw'n mynd i'r farchnad.
---	--

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Archwilio sut y mae crefydd wedi dylanwadu ar fywydau pobl a <i>rhoi arweiniad</i> iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach. Archwilio sut mae merched sy'n gwisgo fêl yn ymuno yn y gweithgareddau dydd-i-ddydd cyffredin o'u cwrpas. Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu Siaradwch am beth sy'n digwydd yn y llun, ac ysgrifennwch beth ydych chi'n ei feddwl y gallai'r bobl fod yn ei ddweud neu'n ei feddwl.
---	--



Tudalennau 6-7

Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol

Maes dysgu

Ymchwilio a mynegi **ystyr** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth.

Archwilio'r gwahanol fathau o feliau sy'n cael eu gwisgo gan ferched Mwslimaidd.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Dysgwch am y gwahanol fathau o feliau, a pham eu bod yn bwysig i'r rhai sy'n eu gwisgo.



Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol

Maes dysgu

Archwilio ein **cyfrifoldeb** ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol.

Archwilio pam y gallai cadw'n heini fod yn bwysig i bobl grefyddol.

Datblygiad mathemategol

- Defnyddiwch stopwatsh i amseru eich hun yn loncian o gwmpas cae'r ysgol.





Tudalennau 8-9

Agwedd ar yr ystod	 Mynegi ymatebion personol i gwestiynau personol, crefyddol a moesol.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio sut mae gweld merched yn gwisgo fêl yn eich atgoffa <i>chi</i> o'u ffydd grefyddol nhw.
Maes dysgu	<i>Datblygiad creadigol</i> Lluniwch gollage o bobl yn disgwyl am y bws, gan gynnwys un ferch yn gwisgo fêl.

Agwedd ar yr ystod	 Gofyn cwestiynau ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio sut mae rhywun yn teimlo wrth wisgo fêl yn gyhoeddus.
Maes dysgu	<i>Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu</i> Dychmygwch eich bod yn teithio mewn bws ac yn gwisgo fêl, a siaradwch am beth rydych chi'n ei weld drwy ffenestr y bws.



Tudalennau 10-11

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Archwilio sut y mae crefydd wedi dylanwadu ar fywydau pobl a <i>rhoi arweiniad</i> iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach. Archwilio sut a pham bod Mwslimiaid ddim yn bwyta rhai bwydydd. Datblygiad corfforol Gosodwch stondin farchnad ar gyfer ffrwythau, llysiau a chigoedd.
---	---

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Gofyn cwestiynau ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio. Archwilio pam y byddai rhai pobl grefyddol yn debygol o feddwl ei fod yn bwysig prynu cynnyrch Masnach deg. Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Dysgwch am fananas Masnach deg.
---	---



Tudalennau 12-13

Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol


Maes dysgu

Mynegi **ymatebion personol** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol.

Archwilio sut beth yw gwisgo fêl cyn mynd allan.

Datblygiad corfforol

- Ceisiwch wisgo fêl.



Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol

Maes dysgu

Archwilio ein **cyfrifoldeb** ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol.

Archwilio sut i ddweud ac ysgrifennu enwau Mwslimaidd gyda pharch.

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Ewch ati i ymarfer dweud a sillafu enwau 'Ahmed' a 'Salma' ac enwau rhai o'ch ffrindiau.





Tudalennau 14-15

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Cael mewnwelediad i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. Archwilio pensaernïaeth nodedig mosgiau. Datblygiad creadigol Cwblhewch y bwâu yn y llun o'r mosg a'u lliwio.
---	--

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Gofyn cwestiynau ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio. Archwilio ble mae mosgiau i'w cael yng Nghymru a Lloegr, a pham maen nhw yno. Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Dysgwch am ble mae mosgiau yng Nghymru a Lloegr.
---	---



Tudalennau 16-17

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Ymchwilio a mynegi ystyr (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth. Archwilio arwyddocâd crefyddol tynnu esgidiau. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • Holwch ynghylch pam mae Mwslimiaid yn tynnu eu hesgidiau cyn mynd i mewn i'r mosg i weddio.
--	--

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Cael mewnwelediad i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. Archwilio arwyddocâd y Qur'an i Fwslimiaid. Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • Dysgwch am y Qur'an a siaradwch ynghylch pam mae'n bwysig i Fwslimiaid.
--	--



Tudalennau 18-19

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Archwilio sut y mae crefydd wedi dylanwadu ar fywydau pobl a <i>rhoi arweiniad</i> iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach. Archwilio'r dylanwad y mae'r Qur'an yn debygol o fod yn ei gael drwy fod yn y cartref. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • Holwch ynghylch pam mae'r Qur'an bob amser yn cael ei osod yn uwch na llyfrau eraill.
---	--

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Cael mewnwelediad i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. Archwilio strwythur y Qur'an. Datblygiad mathemategol • Sawl surah (pennod) sydd yn y Qur'an?
---	--




Tudalennau 20-21

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Ymchwilio a mynegi ystyr (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth. Archwilio sut a pham mae Mwslimiaid yn gweddïo. Datblygiad corfforol • Actiwch bob ystum Mwslimaidd ar gyfer gweddïo yn y drefn gywir.
---	---

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Archwilio sut y mae crefydd wedi dylanwadu ar fywydau pobl a <i>rhoi arweiniad</i> iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach. Archwilio sut mae patrwm y gweddïo'n dylanwadu ar fywydau Mwslimiaid. Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • Meddyliwch am sut mae'r alwad i weddïo'n dylanwadu ar fywyd bob ddydd Mwslimaidd.
---	---



Tudalennau 22-23



Agwedd ar yr ystod

Archwilio ein **cyfrifoldeb** ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol.

Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio parch tuag at wisgoedd crefyddol nodedig.

Maes dysgu

Datblygiad creadigol

- Chwiliwch am luniau gwisgoedd sy'n wahanol a nodedig a lluniwch gollage.



Agwedd ar yr ystod

Mynegi **ymatebion personol** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol.

Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio sut rydych chi'n teimlo ynghylch y ffordd mae merched Mwslimaidd yn gwisgo mewn gwahanol rannau o'r byd.

Maes dysgu

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Chwiliwch am enghreifftiau o wahanol ffyrdd y mae merched Mwslimaidd yn gwisgo mewn gwahanol rannau o'r byd.